



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ffliw

Amddiffynwch eich plentyn

Two cartoon virus characters, one pink and one blue, are positioned on a yellow starburst background. The pink character is on the left, and the blue character is on the right. They both have mischievous expressions.

CURWCH FFLIW
BEAT FLU



Pam bod angen amddiffyn ein plant rhag y Ffliw?

Mae'r Ffliw yn cael ei achosi gan firws sy'n ymledu'n hawdd. Gall unrhyw un gael yn fflw, ond mae'r achosion yn uwch ymysg plant. Gall achosi twymyn, teimlo'n oer, cur pen, peswch, cyhyrau poenus, blinder, trwyn llawn a dolur gwddf, sy'n para am hyd at wythnos. Yn al, bydd plant â'r fflw yn teimlo'n sâl iawn ac angen bod yn eu gwely am ychydig ddiwrnodau.


Mae rhai cymhlethdodau yn cynnwys bronchitis, niwmonia a haint I'r glust. Bydd rhai plant mor wael ac angen mynd I'r ysbyty..

Mae plant sydd â risg uchel o fod yn sâl oherwydd fflw, megis y rhai â chyflyron meddygol y galon, ysgyfaint a diabetes, wedi cael cynnig y frechiad yn flynyddol ers peth amser bellach.



Sut mae brechlyn fflw yn helpu?

Mae'r brechlyn fflw, yn enwedig y chwistrell trwyn ar gyfer plant, fel arfer yn cynnig amddiffyniad da yn erbyn y fflw yn ystod y tymor mae yn cael ei gynnig. Mae'r amddiffyniad yn dechre tua pythefnos ar ôl ei gael. Mae rhai pobl yn dal i gael y fflw hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn, ond yn aml gyda symptomau llai. Nid yw brechlynnau fflw yn amddiffyn yn erbyn annwyd a mathau eraill o salwch gaeaf.



Mae brechiad rhag y fflw yn rhoi amddiffyniad i blant rhag y fflw, ac mae yn helpu rhag iddo ledaenu.


Pa fath o frechlyn ffliw sy'n cael ei roi i blant?

Gall y rhan fwyaf o blant gael y frechlyn chwistrell i fyny 'r trwyn. Bydd nifer fach o blant yn methu cael y brechlyn chweistrell, ac bydd rhain yn cael cynnig pigiad gan y Meddyg Teulu, a roddir yn y fraich yn lle.



Pa mor aml y mae angen y brechlyn fflw?

Mae angen brechlyn fflw bob blwyddyn i roi'r amddiffyniad gorau. Gan bod y feirws fflw yn gallu newid bob blwyddyn, mae'r brechlyn yn cael ei newid i gyd-fynd â hyn.





A oes unrhyw sgil-efeithiau o'r brechlyn fflw?

Mae brechlynnau fflw yn ddiogel iawn. Bydd rhai plant yn cael ychydig o wres, teimlo'n flinedig, yn cael cur pen, cyhyrau poenus, neu ddim chwant bwyd am ddiwrnod neu ddau ar ôl y brechlyn. Efallai bydd y chwistrell trwyn yn achosi i'r trwyn redeg neu fod yn llawn. Gall pigiad achosi braich dolurus. Mae adweithiau eraill yn llai cyffredin.

Mae brechlyn rhag y fflw yn ddiogel ac yn gyflym, a gallai atal wythnosau o salwch difrifol.

Ni fydd y brechlyn fflw yn achosi'r fflw.